# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p.6)

### Dyddiad: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl : Gwariant y pen ar iechyd yng Nghymru

#### Pwrpas

1. Pwrpas y papur hwn yw ymateb i faterion yn ymwneud ?wariant y pen ar iechyd a leisiwyd mewn ymateb i’m hadroddiad i’r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2007.

#### Argymhelliad

2. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

#### Cefndir

3. Hysbysais y Pwyllgor yn Ionawr bod Trysorlys EM yn cyhoeddi dadansoddiad blynyddol o wariant cyhoeddus yn y Dadansoddiad Ystadegol o Wariant Cyhoeddus (PESA). Mae manylion gwariant y pen o’r boblogaeth ar iechyd yn ystod y cyfnod ers datganoli i’w gweld yn y tabl canlynol:

#### Gwariant y pen ar iechyd

| | 1999-2000 | 2000-2001 | 2001-2002 | 2002-2003 | 2003-2004 | 2004-2005 | 2005-2006 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? |
| Cymru | 930 | 1,010 | 1,070 | 1,220 | 1,390 | 1,500 | 1,520 |
| Lloegr | 810 | 890 | 990 | 1,080 | 1,220 | 1,350 | 1,460 |
| Yr Alban | 1,010 | 1,080 | 1,150 | 1,310 | 1,470 | 1,540 | 1,700 |

Ffynhonnell : PESA wedi’i addasu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn dyrannu gwariant ar weinyddu ar draws swyddogaethau PESA

4. Dengys y tabl, gan ddefnyddio data tebyg, bod Cymru yn gwario mwy'r pen o’r boblogaeth ar iechyd na Lloegr yn gyson. Yn ogystal ?ynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu cyfran y gwariant ar iechyd ers datganoli. Erbyn 2007-08, bydd y gyllideb iechyd wedi mwy na dyblu o’i gymharu ?999-00 (cynnydd o 109%), er mai cynnydd o 94% a fu yng nghyfanswm cyllideb y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.

## Cymharu’r gwariant y pen yn PESA gyda thystiolaeth yr Adran Iechyd i Bwyllgor Iechyd Ty’r Cyffredin

5. Mae’r ffigyrau ar gyfer gwariant y pen ar iechyd yn PESA 2006 yn cyferbynnu ?146;r ffigyrau a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd ar gyfer Gwariant y GIG yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Iechyd Ty’r Cyffredin (HC 1692-i). Yn ? dystiolaeth hon, adroddwyd mai ?1,420 oedd gwariant y GIG y pen o’r boblogaeth yng Nghymru, ?1,540 yn Lloegr a ?1,750 yn yr Alban, yn ystod 2005-06.

6. Roedd y ffigyrau a ddarparwyd gan Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Adran Iechyd ar gyfer y dystiolaeth hon yn cynnwys gwariant uniongyrchol y byrddau iechyd lleol, Comisiwn Iechyd Cymru a’r Bwrdd Ymarfer Deintyddol yn unig. Yn y ffigyrau ar gyfanswm gwariant yr NHS yn Lloegr, deellir bod yr Adran Iechyd wedi cynnwys gwariant arall ar wasanaethau iechyd yn Lloegr na fyddai wedi’i gynnwys yn y cyfansymiau a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwariant y GIG yng Nghymru. Nid yw’r Adran Iechyd wedi rhannu unrhyw wybodaeth fanwl gyda Llywodraeth y Cynulliad ynglyn ?ut y cafwyd ffigwr gwariant NHS Lloegr.

7. Fel cymhariaeth fras, fodd bynnag, roedd y cyfanswm alldro ar iechyd ar gyfer cyllideb iechyd y Cynulliad yn 2005-06 yn ?4,688 miliwn, a fyddai’n darparu gwariant y pen o oddeutu ?1,580 ar iechyd yng Nghymru. Mae hyn ?160 y pen yn fwy na’r ffigwr a roddwyd ar gyfer Gwariant y GIG yng Nghymru yn nhystiolaeth yr Adran Iechyd i Bwyllgor Iechyd Ty’r Cyffredin, sy’n cyfateb i oddeutu ?475 miliwn. Mae’r swm hwn yn cynnwys gwariant iechyd a wariwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad, megis gwariant cyfalaf iechyd, gwariant ar addysg a hyfforddiant, gwariant ar ymchwil a datblygu yn y GIG.

8. Ni allaf gynnig sylwadau ar y rhesymau penodol pam fod gwariant y pen ar iechyd yn Lloegr yn 2005-06 (?1,460) yn is yn PESA 2006 na’r gwariant y pen ar gyfer Gwariant NHS Lloegr a ddyfynnwyd yn y dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd Ty’r Cyffredin (?1,540). Byddai’r ddau gyfrifiad wedi deillio o wybodaeth am wariant a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd. Byddai’r gwahaniaeth yn cyfateb i wariant o oddeutu ?4,000 miliwn. Dyma’r rhesymau posibl am y gwahaniaeth:

- Mae’r Adran Iechyd yn cyflawni rhai gweithgareddau heb eu datganoli ar ran y Gweinyddiaethau Datganoledig. Yr enghreifftiau a roddais i’r Pwyllgor yn Ionawr oedd cynllunio ar gyfer ffliw pandemig a rheoleiddio proffesiynol. Mae’n debygol fod gwariant ar y gweithgareddau hyn wedi’i gynnwys yng nghyfanswm Gwariant y GIG ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Iechyd, ond nad yw Trysorlys EM wedi’i gynnwys yn PESA 2006. Ni fyddwn yn disgwyl mai’r math yma o wariant fyddai prif achos y gwahaniaethau rhwng y ddwy set o ffigyrau.
- Rheswm posibl arall am y gwahaniaeth yw amseriad casglu’r data mewn perthynas ? phob blwyddyn ariannol. Byddai’r ffigyrau a ddarparwyd yn y dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd Ty’r Cyffredin ar gyfer 2005-06 wedi adlewyrchu gwariant alldro, gan iddynt gael eu pennu’n derfynol ryw chwe mis wedi diwedd y flwyddyn ariannol honno. Amcangyfrif o’r gwariant ar gyfer 2005-06 yw’r ffigyrau a ddarparwyd i Drysorlys EM ar gyfer PESA 2006, ac fe’u darperir yn fuan iawn yn ystod y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi.

9. Mae’n bwysig nodi nad yw ffigyrau PESA 2006 ar gyfer gwariant 2005-06 yn ffurfio rhan o’r Ystadegau Gwladol. Y ffigyrau hynny y mae Gweinidogion (y DU) wedi penderfynu y dylent ddod o fewn cwmpas egwyddorion y Cod Ymarfer Ystadegau Gwladol oherwydd eu dibynadwyedd yw Ystadegau Gwladol. Mae amcangyfrifon o’r ffigyrau alldro ar gyfer 2005-06 yn PESA y tu allan i gwmpas yr Ystadegau Gwladol. Disgwylir y bydd PESA 2006-07 yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2007 (gan ddangos gwariant 2005-06 fel rhan o’r Ystadegau Gwladol). PESA, fodd bynnag, sy’n darparu’r prif sylfaen ar gyfer cymariaethau priodol o wariant llywodraethau’r pedair gwlad gan ddefnyddio methodoleg gyffredin.

10. I grynhoi, mae PESA 2006 (a addaswyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ddyrannu gwariant ar weinyddu ar draws swyddogaethau PESA) yn dangos gwariant y pen o ?1,520 ar iechyd yng Nghymru yn ystod 2005-06, o’i gymharu ?1,460 yn Lloegr. Mae’r gwariant y pen yn ?figyrau alldro iechyd 2005-06 yn ?1,580 yng Nghymru a ?1,540 yn Lloegr (gan ddefnyddio’r cyfansymiau gwariant yn nhystiolaeth y Pwyllgor Iechyd). Felly, yn ystod 2005-06, gwariodd Cymru rhwng ?60 ac ?80 y pen yn fwy ar iechyd nag a wariwyd yn Lloegr. Bydd cymhariaeth derfynol ar gael pan gyhoeddir PESA 2007 yn nes ymlaen eleni.

## Them?trawsbynciol

11. Nid oes unrhyw them?trawsbynciol uniongyrchol yn deillio o’r papur hwn, sy’n ymwneud ? wariant ar iechyd.

## Goblygiadau Ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o’r papur hwn.

## Gweithredu

13. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

Brian Gibbons,
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwynt Cyswllt :Jeff Buggle, Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ff?29 2082 3137